

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw: Lowri Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y
Gymraeg

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad: post@cyg-wlc.cymru;
lowri.williams@cyg-wlc.cymru

1: A yw'n glir ar gyfer pwy mae'r fframwaith profedigaeth hwn a pham ei fod wedi cael ei ddatblygu?

YDY

Os nad ydyw, rhowch wybod isod beth allwn ni ei wneud i gyflawni hyn?

2. Sut gellir darparu gwasanaethau profedigaeth yn well i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a gwella eu mynediad iddynt (adran 4)?

Rhowch eich awgrymiadau isod:

Dim sylw.

3: A oes unrhyw fodelau / rhaglenni cymorth eraill (Adran 6) y dylai'r Fframwaith fod yn cyfeirio atynt?

A yw'r fframwaith yn glir wrth amlinellu cyfrifoldebau ar draws pob maes iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer ystyried anghenion cymorth a mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth ar gyfer profedigaeth?

YDY/NAC YDY

Rhowch fanylion isod:

Dim sylw ond gweler ein sylwadau isod yn ein hatebion i gwestiynau 6-13 ynghylch cyfrifoldebau asiantaethau gwahanol o safbwynt darpariaeth Gymraeg.

4: A yw'r adran Dysgu o Covid-19 (Adran 9) yn rhoi digon o sylw i'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig, a'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod gofal a chymorth profedigaeth o ansawdd uchel ar gael i bawb sydd angen hynny yng Nghymru?

YDY/NAC YDY

Os nad ydyw, rhowch wybod isod sut gellir gwneud hyn yn gliriach a beth arall dylid ei gynnwys.

Nid oes gennym sylwadau am wersi penodol i'w dysgu o Covid-19. Fodd bynnag, gweler ein sylwadau isod yn ein hatebion i gwestiynau 6-13 am y camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod gofal a chymorth profedigaeth o ansawdd uchel ar gael i bob siaradwr Cymraeg sydd angen hynny yng Nghymru.

5: Sut gellir darparu gwasanaethau profedigaeth yn well i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gwella eu mynediad iddynt? (Adran 10).

Rhowch eich awgrymiadau isod:

Dim sylw.

6. A ydych yn credu y gellir cryfhau'r adran ar Hyfforddiant, Dysgu a Goruchwylio ar gyfer unigolion sy'n darparu cymorth profedigaeth ac i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl sydd mewn profedigaeth (Adran 11) er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu profedigaeth, addysg a recriwtio.

YDW

Rhowch fanylion isod:

Fel yn achos y ddogfen yn ei chyfanrwydd ni cheir cyfeiriad o gwbl at y Gymraeg yn yr adran hon o'r fframwaith. Mae hyn yn destun siom a syndod inni, yn arbennig gan fod ymwneud pobl â'i gilydd, boed hwy yn weithwyr proffesiynol neu yn wirfoddolwyr yn gwbl greiddiol i lwyddiant y fframwaith. Elfen hanfodol o'r ymwneud hwn yw cyfathrebu, ac un o elfennau sylfaenol cyfathrebu yw iaith. Fel yr eglurir yng Nghynllun Gweithredu *Mwy na geiriau*¹ 'I lawer o deuluoedd ac unigolion, mae gofal o ansawdd uchel yn golygu'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny oherwydd eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu hiaith eu hunain.' Ni allwn bron ddychmygu sefyllfa lle mae medru derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn bwysicach na phan fo pobl yn profi galar. Mae'r fframwaith ei hun ar dudalen 27 y ddogfen ymgynghori yn tanlinellu pwysigrwydd cyfathrebu da pan fo unigolyn mewn galar, 'er bod galar yn gallu bod yn gymhleth beth bynnag oedd cam olaf bywyd y person, gwyddom fod profiadau a chanfyddiadau o gyfathrebu gwael, gofal gwael, neu ofid heb ei reoli yn gallu gwneud profedigaeth yn anos o lawer'. Enghraifft o hyn oedd sefyllfa unigolyn a gollodd blentyn yn ystod cyfnod clo 2020. Cymraeg yw iaith ei deulu ac roedd yn dymuno trafod ei brofedigaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid oedd y gwasanaethau ar gael iddo yn y Gymraeg. Fel y nododd: 'Rwy' wastad yn meddwl pan yn cael help, cefnogaeth neu gwnsela bydde lot gwell i fi 'neud hwn trwy gyfrwng y Gymraeg. "Rwy' di colli fy mab a Chymraeg oedd ein hiaith ni. Mae jyst yn teimlo yn naturiol i sôn amdano yn ei iaith gynta' fe, ac mae yn helpu fi i gysylltu mwy gyda fe."²

Rhaid i'r fframwaith hwn sicrhau bod digon o weithlu proffesiynol a gwirfoddol ar gael sy'n gallu darparu gwasanaethau profedigaeth ym mhob rhan o Gymru trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn darparu gofal a chymorth profedigaeth o ansawdd. Rhaid sicrhau felly fod recriwtio siaradwyr Cymraeg a datblygu sgiliau'r gweithlu profedigaeth yn ganolog i'r fframwaith. Mae angen adolygu'r adran hon o'r fframwaith yn ei chyfanrwydd i gynnwys camau gweithredu penodol i sicrhau hyn. Yn benodol:

- Nodir 'dylid nodi'r anghenion hyfforddi i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol, gan gydnabod y gallai hyn alw

¹ [Mwy na geiriau Cynllun Gweithredu 2019-2020 \(llyw.cymru\)](#)

² ['Bu farw ein plentyn yn ystod y cyfnod clo' - BBC Cymru Fyw](#)

am hyfforddiant mewn sgiliau eraill, nid dim ond sgiliau cwnsela. Dylid monitro pob hyfforddiant i sicrhau ei fod yn bodloni'r safon ansawdd ofynnol.' Dylai medru siarad Cymraeg a darparu gwasanaeth a gofal galar yn y Gymraeg gael eu hadnabod fel anghenion hyfforddi creiddiol. Dylid hefyd sicrhau bod ymwybyddiaeth ynghylch yr angen i fedru darparu'r gwasanaethau hyn yn y Gymraeg yn rhan o'r hyfforddiant a ddarperir i bob unigolyn. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth i addasrwydd darparu gwasanaeth mewn iaith oni bai am ddewis iaith unigolion a sut mae darparwr gofal nad yw'n medru siarad iaith yr unigolyn yn ymateb i sefyllfa o'r fath.

- Rydych yn tynnu sylw at Safonau Gwasanaeth Gofal Profedigaeth Cruse. Fodd bynnag, dylem nodi nad ydynt yn cyfeirio o gwbl at bwysigrwydd cyfathrebu yn newis iaith unigolion. Hoffem eich annog i ystyried safonau sydd felly'n fwy ystyriol o anghenion penodol Cymru o safbwynt darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.
- Nodir 'Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Profedigaeth a pharhau i'w gefnogi, bydd fforwm yn cael ei sefydlu i rannu profiadau, syniadau, arferion da a'r dysgu.' Buasem yn eich annog yn gryf i sicrhau bod cynrychiolaeth addas yn aelodau o'r fforwm hwn sy'n gallu adlewyrchu profiadau siaradwyr Cymraeg o wasanaethau a gofal mewn profedigaeth yng Nghymru.

Gweler ein hateb i gwestiwn 9 isod ynghylch Adran 1 y fframwaith sy'n berthnasol i'r adran hon.

7: A yw'r adran ar lwybrau atgyfeirio (adran 12) yn darparu digon o wybodaeth am y llwybr y gall pobl ei ddilyn i gael gafael ar gymorth mewn profedigaeth? NAC YDY

Os nad ydyw, rhowch fanylion ynghylch sut gellir cyflawni hyn.

Hoffem dynnu eich sylw at yr enghraifft yn ein hateb i gwestiwn 6 am unigolyn a ddiodefodd brofedigaeth y llynedd oedd yn dymuno derbyn gwasanaethau profedigaeth yn y Gymraeg, ond nad oeddynt ar gael iddo. Rydym eisoes wedi nodi bod angen i'r fframwaith hwn fynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod gweithlu gwirfoddol a phroffesiynol ar gael i gefnogi pobl sy'n galaru. Yn yr adran hon mae angen sicrhau bod camau penodol wedi'u cynnwys ynghylch sut mae unigolyn yn cael gafael ar gymorth mewn profedigaeth yn y Gymraeg. Yn hynny o beth, dylai egwyddor sylfaenol y 'cynnig rhagweithiol' sy'n golygu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano gael ei ymgorffori'n llawn yn y Fframwaith a bod yn ystyriaeth greiddiol i gynllunio gwasanaethau profedigaeth. Yn benodol yn yr adran hon o'r Fframwaith, hoffem dynnu eich sylw at yr isod:

- Nodir 'Mae angen i bobl mewn profedigaeth a'u teuluoedd sy'n chwilio am gymorth allu cael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael, mewn fformat sy'n gweithio iddynt.' Dylai hyn gynnwys sicrhau bod pobl mewn profedigaeth yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael iddynt yn y Gymraeg.
- Nodir 'mae angen i'r dull atgyfeirio i'r gwasanaeth fod yn glir gyda dealltwriaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael, gan gynnwys amcangyfrif o'r

amser aros am y cymorth hwnnw, lle mae rhestr aros yn bodoli.' Yn y fan hon dylid nodi bod angen dull atgyfeirio clir i wasanaethau Cymraeg a bod rhaid i unigolion fod â dealltwriaeth glir fod y gwasanaethau y maent eu hangen ar gael iddynt yn y Gymraeg. Rhan hanfodol o hynny wrth gwrs yw sicrhau yn wir bod y gwasanaethau hynny ar gael yn y Gymraeg drwy gomisiynu a recriwtio addas. Os nad ydynt ar gael gan ddarparwr penodol rhaid sicrhau bod dulliau amgen o'u darparu yn y Gymraeg (e.e. drwy drafod â darparwyr eraill yn lleol a chenedlaethol yn y tymor byr) a chynllunio strategol er mwyn diwallu'r angen i'r dyfodol yn lleol ac yn genedlaethol.

- Nodir 'Mae angen i'r darparwr sicrhau bod y broses asesu ar gyfer atgyfeirio i'w gwasanaeth yn glir ac yn ddealladwy, gan gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen yn unig i sicrhau asesiad llawn o anghenion y person mewn profedigaeth.' Dylid nodi bod angen darparu'r asesiad hwn yn y Gymraeg er mwyn sicrhau asesiadau llawn o anghenion y person mewn profedigaeth. Dylai gwybodaeth am ddewis iaith unigolyn fod yn wybodaeth greiddiol a ddefnyddir i gynllunio gwasanaethau dilynol.
- Nodir 'Ar ôl casglu'r wybodaeth hon a thrafod canlyniad yr asesiad gyda'r person, os yw'n glir y bydd ei anghenion yn cael eu diwallu'n well gan ddarparwr arall (o ran cymhlethdod yr angen, arbenigedd, math o wasanaeth sydd ar gael, neu gymorth mwy amserol), yna dylid cynnig atgyfeirio'r person mewn profedigaeth ymlaen at sefydliad arall.' Yn y fan hon, dylai 'iaith y ddarpariaeth' fod yn angen y dylid ystyried a yw'n well ei ddarparu gan ddarparwr arall a felly a ddylid cynnig atgyfeirio'r person at sefydliad arall.
- Nodir 'mewn unrhyw achos lle bydd person yn cael ei gyfeirio ymlaen, bydd yn bwysig i'r ddau sefydliad (yr un sy'n atgyfeirio a'r un sy'n derbyn yr atgyfeiriad), sicrhau bod y broses yn cael ei rheoli'n briodol, nad yw'r person mewn profedigaeth yn teimlo ei fod "wedi cael ei anghofio", a'i fod yn dal i allu cael cymorth yn ystod y cyfnod pontio.' Mae nifer o bobl yn peidio â gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg oherwydd nad ydynt eisiau 'creu trafferth' neu 'fod yn niwsans'. Dylid sicrhau felly nad yw person mewn profedigaeth sy'n dymuno derbyn gwasanaethau Cymraeg yn cael ei wneud i deimlo felly nac yn teimlo eu bod 'wedi cael eu hanghofio' os bydd angen eu hatgyfeirio fel y bônt yn derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg.

8: A ddylai'r fframwaith fod yn cyfeirio at fathau eraill o hunan-reolaeth/hunan-ofal (adran 13)?

DYLAI

Os dylai, rhowch fanylion y dulliau isod:

Yn ei chyflwyniad i'r gyfrol a olygwyd ganddi, *Galar a fi* (Gwasg y Lolfa, 2017) mae Esyllt Maelor yn nodi: 'Yn ei rhagair i'r gyfrol honno (*Gyrru drwy Storom*) nododd Alaw Griffiths iddi fethu dod o hyd i wefannau a llyfrau gwybodaeth ddigonol am salwch meddwl yn y Gymraeg. A does dim byd bron ar gael yn y Gymraeg am alar chwaith. Os yw darllen yn un ffordd o gwrs, roeddwn am ddarllen yn Gymraeg'.

Cyfeirir yn yr adran hon o'r fframwaith fod 'dulliau sy'n grymuso pobl i reoli eu profedigaeth eu hunain, fel canllawiau hunan-gymorth, yn gallu bod yn effeithiol iawn' a 'Dylai ffynonellau cymorth fod yn rhan o bob gofal ar ôl profedigaeth'. Yn dilyn y diffyg deunyddiau am alar y cyfeiriodd Esyllt Maelor ato uchod hoffem dderbyn sicrhad eich bod wedi ystyried y graddau y mae adnoddau ar gael yn y Gymraeg ac yn addas yn ddiwylliannol ar gyfer eu defnyddio gan siaradwyr Cymraeg. Os nad oes canllawiau addas a digonol ar gael buasem yn eich annog i gymryd camau i unioni hynny er budd gweithrediad y fframwaith hwn.

9. A yw'r Safonau Profedigaeth (Atodiad 1) yn nodi pa feysydd mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn i wasanaethau cymorth profedigaeth fod yn ddiogel ac yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion pobl sydd mewn profedigaeth? A yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r safonau hyn?

NAC YDY

Os nad ydyw, rhowch fanylion sut gellir cyflawni hyn.

Nid yw'n ymddangos inni fod y fframwaith/safonau profedigaeth yn ystyried yr angen i ddarparu gofal a gwasanaethau profedigaeth yn yr iaith Gymraeg. Nodir mewn un man yn unig y dylai gwybodaeth fod ar gael 'mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd' yn Atodiad 1. Mae'r atodiad yn cyfeirio at rôl y llywodraeth; cyfrifoldeb comisiynwyr a darparwyr; safonau craidd ar gyfer darparwyr a Mesurau Manwl ar gyfer Darparwyr Cymorth Profedigaeth gan gyfeirio at adnoddau sydd ar gael ar gyfer y cyrff yn y rolau gwahanol hyn..

- Er enghraifft, cyfeirir at *A Guide to Commissioning Bereavement Services in England* a'i fod yn 'rhoi disgrifiad o sut beth yw darpariaeth leol dda ar gyfer plant mewn profedigaeth a'u rhieni a'u gofalwyr.' Nid ydym yn gweld bod y canllaw hwn yn cyfeirio o gwbl at ddarpariaeth yn iaith plant mewn profedigaeth. Yng Nghymru, wrth gwrs mae nifer o blant yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf a nifer fwy yn derbyn addysg Gymraeg. Rydym o'r farn felly y byddai darpariaeth leol dda ar gyfer plant mewn profedigaeth a'u gofalwyr yn golygu bod darpariaeth ar gael yn y Gymraeg iddynt.

Adran 1.2 (Comisiynwyr)

- Dylai gweithredu egwyddor y cynnig rhagweithiol fod yn rhan greiddiol o'r disgwyliadau a wneir o gomisiynwyr yn yr adran hon. Fe'ch anogwn felly i ystyried fframwaith *Mwy na geiriau*³ Llywodraeth Cymru sy'n cynnig rhagor o arweiniad ynghylch y disgwyliadau ar gomisiynwyr ac eraill. Dylem nodi hefyd ei bod yn ofynnol i nifer o gyrff statudol (gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd) a fyddai'n ymwneud â darparu gwasanaethau profedigaeth gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau Cymraeg, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd a recriwtio a

³ [Mwy na geiriau Cynllun Gweithredu 2019-2020 \(llyw.cymru\)](#)

hyfforddi staff yn ogystal â materion eraill⁴; mae'r safonau yn estyn hefyd i wasanaethau trydydd parti a ddarperir ar ran y cyrff hyn. Credwn y dylid adlewyrchu'r gofyn i gydymffurfio â'r safonau hyn yn yr adran hon.

- Nodir y 'dylai comisiynwyr sicrhau y gellir darparu gofal a chymorth o'r safon briodol i blant, pobl ifanc ac oedolion, fel y gellir diwallu eu hanghenion o ran profedigaeth gan ystyried eu ffydd, eu diwylliant, eu rhywedd, eu statws economaidd a'u lleoliad yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl sydd mewn profedigaeth i ddeall sut mae plant yn galaru.' Eto hoffem bwysleisio ein bod o'r farn fod iaith yn un o'r 'anghenion o ran profedigaeth' y cyfeirir atynt yn y ddogfen yn achos plant, pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd.
- Nodir 'Dylai comisiynwyr sicrhau bod unrhyw un sy'n profi profedigaeth yn cael gwybodaeth gyfredol a pherthnasol am y gymorth sydd ar gael iddynt.' Fel yr ydym wedi'i nodi uchod dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn Gymraeg a dylai'r cymorth fod ar gael yn Gymraeg hefyd.
- Ar dudalennau 29-31 ceir tabl yn amlinellu cyfrifoldebau comisiynwyr a darparwyr wrth iddynt ymateb i gategoriâu gwahanol o ofal y dylent ei ddarparu. Eto, hoffem bwysleisio bod cyfrifoldeb ar nifer o ddarparwyr yn sgil safonau'r Gymraeg i ddarparu llawer o'r hyn y cyfeirir ato yn y fan hon drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth. Ymhellach fel y nodom eisoes mae fframwaith *Mwy na geiriau*⁵ yn gosod camau gweithredu yn eu lle y bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill yn eu cymryd i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal sydd y tu hwnt i'r safonau. Dylai Llywodraeth Cymru, drwy'r fframwaith profedigaeth hwn danlinellu i ddarparwyr bwysigrwydd darparu gwasanaethau profedigaeth yn Gymraeg, a dylai comisiynwyr hefyd sicrhau bod eu harferion comisiynu yn adlewyrchu eu dyletswyddau o dan safonau'r Gymraeg ac yn cyfrannu at weithredu gweledigaeth *Mwy na geiriau*.

1.3 Safonau Craidd ar gyfer darparwyr gwasanaethau profedigaeth

- Cyfeiriwch yn y fan hon at *Safonau Gwasanaeth Gofal Profedigaeth, 2014* (Bereavement Care Service Standards, 2014). Nid yw'r safonau hyn yn cyfeirio o gwbl at ddarparu gwasanaeth gofal profedigaeth yn iaith y person sydd mewn profedigaeth. Nid oes syndod felly nad oes cyfeiriad at y Gymraeg yng ngweddill yr adran hon o'r fframwaith. Fe'ch anogwn eto i ystyried y Gymraeg yn yr adran hon. Buasem er enghraifft, yn nodi bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn cyd-fynd ag egwyddorion parch; cydraddoldeb ac amrywiaeth; ansawdd a diogelwch.

1.4 Mesurau Manwl ar gyfer Darparwyr Cymorth Profedigaeth

- Mewn sawl man yn yr adran hon hefyd dylid cyfeirio at wasanaethau Cymraeg ac at nifer o'r ystyriaethau y cyfeiriom atynt yn ein hatebion i gwestiynau 6, 7 ac 8 o safbwynt cofrestru/atgyfeirio; asesu risg; goruchwyllo a monitro; a gwerthuso, yn benodol wrth gwrs dylai p'un a ddarparwyd gwasanaethau Cymraeg yn unol â dyhead yr unigolyn fod ymysg y mesurau gwerthuso.

⁴ Gweler [Cyfraith Cymru - Safonau \(gov.wales\)](http://gov.wales) am ragor o wybodaeth am y safonau.

⁵ [Mwy na geiriau Cynllun Gweithredu 2019-2020 \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

Rydym yn eich annog i edrych o'r newydd ar y safonau hyn gan ystyried sut y gellid eu cryfhau o safbwynt darparu gwasanaethau a gofal mewn profedigaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

10. Rydym eisiau clywed eich safbwyntiau ynghylch sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fframwaith/safonau profedigaeth yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n briodol? A yw'n glir sut bydd gweithrediad y fframwaith yn cael ei fonitro i weld a fydd yn cael effaith ymarferol ar ddarparu gofal profedigaeth yng Nghymru?

Rhowch eich awgrymiadau isod:

Yn gysylltiedig â'n hateb i gwestiwn 9 uchod, unwaith y byddwch wedi ymgorffori safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, dylid eu monitro er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg sy'n rhan o fframwaith/safonau diwygiedig yn wir yn cael ei ddarparu. Dylid cynnwys darparu gwasanaethau yn y Gymraeg fel un o fesurau ansawdd gwasanaethau profedigaeth.

11. Hoffem wybod eich barn am effaith y Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal Profedigaeth yng Nghymru ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Hyd y gwelwn ar hyn o bryd nid yw'r Fframwaith Cenedlaethol Drafft fel petai'n ystyried yr angen o gwbl i ddarparu gofal profedigaeth yn y Gymraeg. Rydym wedi tynnu sylw yn ein hatebion i gwestiynau 6-10 at bwysigrwydd gwneud hynny ac at enghreifftiau lle mae pobl wedi nodi bod diffyg darpariaeth Gymraeg ar gael. Rydym hefyd wedi nodi nifer o fannau lle gallasid cryfhau'r Fframwaith.

Nodir yn adran 14 y ddogfen ymgynghori: 'Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl, bydd angen adnoddau ar gyfer profedigaeth ym mhob rhan o'r system. Bydd gweithio rhyngbroffesiynol a phartneriaeth cadarn ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi canlyniadau gwell' (tud.27). Bydd angen adnoddau Cymraeg ar gyfer profedigaeth ym mhob rhan o'r system. Yn ei hanfod, fodd bynnag, credwn bod angen ichi wneud y canlynol er mwyn sicrhau y gweithredir y Fframwaith:

- cynnal adolygiad o'r bon i'r brig o'r gwasanaethau yr arfaethir eu darparu trwy'r fframwaith hwn er mwyn deall y graddau y maent ar gael yn y Gymraeg gan adnabod y bylchau sydd yno
- llunio cynllun tymor hir i lenwi'r bylchau hynny gyda chefnogaeth ariannol i alluogi hynny os oes angen
- dylai'r cynllun hwnnw bennu dulliau o godi ymwybyddiaeth comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau o'r cynnig rhagweithiol a darparu gwasanaethau

yn y Gymraeg.

- adnabod camau tymor byr y dylid eu cymryd i geisio diwallu'r gofyn am wasanaethau hyd nes y cyflawnir y cynllun
- yn ogystal â hyn, gofynnwn ichi ystyried a oes ystyriaethau moesol sy'n gysylltiedig â darparu gofal profedigaeth a diwedd oes mewn iaith oni bai am ddewis iaith unigolyn.

Unwaith y byddwch yn deall yn well yr ystyriaethau hyn dylid bwrw ati i addasu'r Fframwaith i ystyried sut y gellir ei gyflawni er mwyn medru darparu gofal profedigaeth yn y Gymraeg drwy'r system gyfan.

12: Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal mewn Galar yng Nghymru gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni chyfeirir o gwbl at ddarparu gofal ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal mewn Galar yng Nghymru. Nid ydym yn gwybod felly pa ystyriaeth a roddwyd gennych i anghenion siaradwyr Cymraeg wrth lunio'r Fframwaith. Mae'n bur anodd felly gofyn am sylwadau ynghylch sut y byddai modd ei chryfhau mewn unrhyw ffordd ystyrion o safbwynt y Gymraeg. Yn hynny o beth, hoffem eich atgoffa o'ch dyletswydd statudol o ganlyniad i safonau'r Gymraeg i bwysu a mesur effaith y cynigion ar y Gymraeg cyn ymgynghori a hynny oherwydd y gofyn sydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau llunio polisi⁶ yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fodd bynnag, yn ein hatebion i gwestiynau 6-13 rydym wedi ceisio tynnu sylw at ffyrdd o gryfhau'r ddogfen hon o safbwynt yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg.

13: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu/camau nesaf sydd ar goll y dylai'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth eu cymryd yn eich barn chi, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt:

Rydych yn cynnwys dolenni at safonau profedigaeth amrywiol yn Atodiad 3 a Dolenni i ddogfennau canllawiau/fframweithiau eraill yn atodiad 4. Os nad ydynt yn tanlinellu ac yn hyrwyddo darparu gwasanaethau yn y Gymraeg rydym yn eich annog i ystyried addasrwydd y dogfennau hyn. Os nad ydynt yn ystyried y Gymraeg, rydym yn eich annog i weithio â llunwyr y dogfennau hyn i sicrhau y cânt eu diweddarau fel y bônt yn gwneud hynny.

⁶ Gweler <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/2/made/welsh>